

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 23 Mai 2018

**Presennol:** Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Mr S Barnard, Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mrs T Hibbert, Mr A Jones, Dr L Jones, Mr W Jones, Dr J Latchford, Dr L Murphy, Mr D Owen, Mr G Parry, Miss E Riches, Mr S Roberts, Ms M Rowlands, Yr Athro C Tully, Mr J Williams, Mrs E Parry Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Dr C Gwenin, Dr H Roberts, Ms C Monks

#### 535. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 31 Ionawr 2018.

#### 536. MATERION YN CODI

- a) 529(b) (v) Adroddiad yr Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol: Bu'r ymweliad gan Archwilydd Arbenigol GM yr HSE yn llwyddiant, ac ni chodwyd unrhyw bryderon o bwys. Nododd yr Archwilydd oed a chyflwr yr Ystafell Tyfu Planhigion bresennol ac fe'i hysbyswyd y dylai'r cyfleuster presennol gael ei wagio yn Awst 2018 a chael cyfleuster mwy modern yn ei le.
- b) 531 Adroddiad ar Faterion PACS: Nodwyd bod pwysigrwydd rheoli risg o fewn PACS yn ystod y cyfnod hwn o newid ac ad-drefnu wedi cael ei godi gyda'r Cyngor.
- c) 534(i) Gwastraff yn Crynhoi: Nodwyd y darparwyd biniau sbwriel ac ailgylchu ychwanegol a bod adnoddau staff wedi cael eu hail-bennu i helpu i fynd i'r afael â gwastraff yn crynhoi yn rhai manau cymunedol. Nodwyd hefyd bod cwynion yn ymwneud â gwastraff wedi gostwng ers i hynny gael ei wneud.
- d) 534(ii) Cydlynnydd Iechyd a Diogelwch Colegau'r Celfyddydau a Gwyddorau Dynol: Yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch bydd y Cadeirydd yn codi mater staff Iechyd a Diogelwch cymwys i'r ddau Goleg.

#### 537. SAFONAU POLISI IECHYD A DIOGELWCH

##### 537(a) Polisi Meysydd Electromagnetig (Newydd)

Mae'r Safon Bolisi newydd hon yn nodi'r gofynion sydd ar y Brifysgol, ei Cholegau a'i Gwasanaethau Proffesiynol o ran defnyddio a rheoli'n ddiogel offer sy'n cynhyrchu meysydd electromagnetig sylweddol (EMF), gan gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Meysydd Electromagnetig yn y Gwaith diweddar.

Canolbwyntir yn neilltuol yn y Polisi ar effeithiau EMF ar "Bobl dan Risg Neilltuol" ac mae'n cynnwys 'datganiad cydraddoldeb' sy'n cydnabod y gall rhai pobl a all fod yn wynebu risg neilltuol gael eu cyfyngu rhag gweithio gyda lefelau uchel o EMF, neu arsylwi hynny'n uniongyrchol.

Cynhyrchwyd nifer o Daflenni Gwybodaeth ymarferol a Thempledi Asesu Risg i gefnogi'r

Safon Bolisi newydd hon.

Nodwyd bod PACS wedi gwneud arolwg bwrdd gwaith i adnabod holl ffynonellau sylweddol posib o EMF o fewn yr isadeiledd trydanol a bydd yn penodi ymgynghorydd allanol i wneud arolwg o'r rhain yn 18/19.

Trafodwyd y Polisi arfaethedig newydd, a **chytunwyd** i gymeradwyo'r Polisi newydd hwn.

**537(b) Defnyddio Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn Ddiogel (Newydd)**

Mae'r Safon Bolisi newydd hon yn nodi'r gofynion sydd ar y Brifysgol, ei Cholegau a'i Gwasanaethau Proffesiynol o ran defnyddio'n ddiogel ffynonellau golau ymbelydredd optegol artiffisial peryglus, yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn y Gwaith.

Nid yw'r Safon Bolisi'n cynnwys 'laserau' pwerus, a chaiff y rhain eu hystyried mewn dogfen ar wahân oherwydd y risgiau a'r rheolaethau neilltuol sy'n gysylltiedig â hwy.

Bydd effaith y Safon Bolisi newydd hon ar y Brifysgol yn isel gan fod Colegau, at ei gilydd, eisoes wedi gweithredu'r rheolaethau angenrheidiol ar gyfer y ffynonellau golau dwysedd uchel perthnasol.

Cefnogir y Safon Bolisi gan nifer o Daflenni Gwybodaeth.

Trafodwyd y Polisi arfaethedig newydd, a **chytunwyd** i gymeradwyo'r Polisi newydd hwn.

**537(c) Polisi Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau (Diwygio)**

Cynigiwyd polisi newydd i ddisodli'r Nodyn Polisi OHSU P8 presennol, sef Problemau Cysylltiedig ag Alcohol a Chyffuriau. Mae'r newidiadau i'r Polisi'n ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- i. Canolbwyntio prif ddiben y Polisi ar effeithiau niweidiol posibl defnyddio alcohol a sylweddau ar iechyd a diogelwch.
- ii. Tynnu sylw at yr egwyddor na ddylai rhai sy'n gwneud swyddi lle mae diogelwch yn hollbwysig yfed na bod dan ddylanwad alcohol neu sylweddau meddwol, tra bônt yn cyflawni'r dyletswyddau hynny lle mae diogelwch yn hollbwysig.
- iii. Hwyluso cyflwyno trefn yn y dyfodol o brofi am alcohol a sylweddau staff sy'n ymwneud â gweithgareddau lle mae diogelwch yn hollbwysig; yn amodol ar gymeradwyaeth ar wahân o ran sicrhau a gweithredu ansawdd.

Cafwyd trafodaeth wedyn lle codwyd y materion allweddol a ganlyn:

- a. Ystod y staff sy'n dod dan y Polisi diwygiedig hwn a'r goblygiadau cytundebol yn deillio o hyn.
- b. Diffyg manylion ynghylch y meini prawf a fyddai'n arwain at brawf, dull cynnal y prawf a pha gamau gweithredu a fyddai'n cael eu cymryd pe ceid canlyniad 'positif'.
- c. Y goblygiadau o ran cynnwys myfyrwyr a fyddai, pe baent 'dan ddylanwad', hefyd yn cael effaith ar eu hiechyd a diogelwch hwy eu hunain ac eraill, yn arbennig pe baent yn gweithio mewn manau risg uwch megis labordai.
- d. Y posibilrwydd o waharddiad llwyr ar yfed alcohol yn ystod oriau gwaith.

Cytunwyd bod angen i'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch ystyried hyn ymhellach. **Ni**

**chymeradwywyd y Polisi diwygiedig hwn.**

**537(d) Plant ar Eiddo'r Brifysgol (Diddymwyd)**

Gan fod Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn awr yn cynnwys adran yn benodol ar gyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd a diogelwch plant sy'n ymweld â'r Brifysgol, neu'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol (Adrannau 14.1, 14.3 a 14.4), teimlir nad oes angen mwyach am Safon Bolisi fanwl ar wahân. Argymhellwyd cael gwared ar Nodyn Polisi OHSU P15: Cod Ymarfer Plant ar Eiddo'r Brifysgol.

Nodwyd os diddymir y Polisi yna cymerir gwybodaeth berthnasol o Nodyn Polisi: OHSU P15 a'i chynnwys mewn enghreifftiau ymarferol newydd a Thafleuni Gwybodaeth ategol. Ni chaiff y Nodyn Polisi ei ddiddymu nes bydd Tafleuni Gwybodaeth ategol wedi cael eu cyhoeddi.

Trafodwyd y cynnig i gael gwared ar y Nodyn Polisi a **chytunwyd i gymeradwyo'r cynnig hwn.**

**538. ADRODDIADAU ARCHWILIO/ADOLYGU**

Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch wedi cwblhau'r archwiliad ar Systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn Undeb y Myfyrwyr Bangor.

Ystyriodd yr archwiliad y Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch cyffredinol, ynghyd â thair risg benodol: Diogelwch Trelars Cerbydau, Diogelwch Personol Myfyrwyr yn Gwasanaethau Myfyrwyr, a Defnyddio Ysgolion ac Ysgolion Bach.

Sgoriodd yr Undeb 'Arfer Gorau' gyda sgôr drwodd a thro o 96%, gyda dim ond 1 Gweithredu o bwys wedi'i nodi. Gwnaed nifer o argymhellion hefyd i alluogi'r Undeb i wella ei systemau ymhellach.

Drwy gydol yr adroddiad canmolwyd ymrwymiad ac arweinyddiaeth staff ar bob lefel yn yr Undeb a'u hymdrechion cyson i wella systemau a phrosesau'n barhaus. Cydnabuwyd yn gynnes gyfraniad Mr Barnard i iechyd a diogelwch yn Undeb y Myfyrwyr a diolchodd y cadeirydd a'r pwyllgor iddo am ei gyfraniad a dymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd.

**SYLWER:** Mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch wedi dechrau archwiliad o'r Ganolfan Rheolaeth erbyn hyn.

**539. GRŴP TASG IECHYD A DIOGELWCH**

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod unwaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitemau allweddol isod yn y cyfarfod hwnnw:

- i. Gwnaed arolwg o gamau gweithredu'r Grŵp Tasg IaD dros y 4 blynedd ddiwethaf, gyda'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi eu 'cau' erbyn hyn.
- ii. *Teithio Dramor ac Yswiriant:* Gwelwyd bod Archwiliad Mewnol RMS UK yn 2015/16 wedi nodi y dylai prynu teithio dramor yn ymwneud â'r Brifysgol fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chadarnhau bod yswiriant busnes y Brifysgol ar gael hefyd; fodd bynnag, nodwyd nad oedd trefn o'r fath byth ar gael. Ystyriwyd y mater gan y Pwyllgor, a nododd hefyd bod angen mynd ati i hyrwyddo ymhellach yr yswiriant teithio (am ddim) yn ymwneud â'r Brifysgol ymysg y myfyrwyr yn gyffredinol, yn

ogystal ag ymysg staff.

- iii. *Hyfforddiant i Staff Uwch*: Cadwyd cyllideb ar gyfer cwrs Iechyd a Diogelwch 'Gweithredu ac Arweinyddiaeth' y flwyddyn academaidd hon. Gan y bydd hyfforddiant i staff uwch yn dod yn KPI sefydliadol yn fuan, anogir holl Benaethiaid, Deoniaid a Dirprwy Is-gangellorion i fynd ar y cwrs.
- iv. *KPIs Arweinyddiaeth UCEA*: Bydd KPIs Arweinyddiaeth a Sefydliadol pellach yn cael eu hadolygu yng ngoleuni newidiadau ad-drefnu a meini prawf diweddar a ddisgrifiwyd gan y safon UCEA y mae'r Brifysgol wedi'i mabwysiadu'n ddiweddar.

#### **540. ADRODDIAD AR FATERION YSTADAU (PACS)**

Cafwyd adroddiad llafar pryd y nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- a. *Cyllideb 18/19*: Mae cynnydd yn cael ei wneud i sicrhau cydymffurfio statudol gyda gwaith arall yn cael ei flaenoriaethu wedyn. Nodwyd y gall fod gostyngiad pellach o 10% yn y gyllideb PACS.
- b. *Ad-drefnu*: Er mwyn gwella'r gwasanaeth, argymhellir symleiddio contractwyr / cyflenwyr cyfredol i gyfanswm o un i chwech.
- c. *Adnoddau Staff*: Mae adnoddau PACS o ran staff yn awr wedi gostwng yn sylweddol o'u cymharu â lefelau yn ystod Adolygiad Allanol blaenorol Baker Tilley, gyda'r Rheolwr Asedau a Gofod a'r Uwch Syrfëwr Adeiladau hefyd wedi gadael yn ddiweddar. Er mwyn sicrhau na chaiff tasgau hanfodol eu hesgeuluso, gwnaed dadansoddiad bwch gyda thasgau'n cael eu hail-bennu; fodd bynnag, mae hyn yn arwain at straen sylweddol ar y staff sy'n weddill. Penodwyd staff o asiantaethau i geisio rhoi sylw i beth o'r diffyg.
- d. *Asbestos*: Yn 17/18 cafwyd gostyngiad o 38% yn nifer eitemau asbestos ar y Gofrestr Asbestos (PLANNON).
- e. *Achos Busnes dros ad-drefnu*: Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei roi i staff a'r Undebau Llafur i ddibenion ymgynghori, cyn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ac yna i'r Pwyllgor Gweithredu. Disgwylir i newidiadau gael eu gweithredu o fis Medi 2018.

Cafwyd trafodaeth wedyn pryd y nodwyd yr eitemau canlynol:

- i. Gofynnodd y Cadeirydd i PACS gofnodi eu materion a'u pryderon yn ffurfiol.
- ii. Argymhellwyd y dylid gwahodd yr Ymgynghorydd Rheoli Newid i gyfarfod nesaf y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch i roi adroddiad.
- iii. Diolchwyd i PACS am eu hymdrechion. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch effaith newid a chynnydd mewn beichiau gwaith ar iechyd a lles eu staff.

#### **541. EITEMAU GAN AELODAU'R PWYLLGOR**

Eitemau a godwyd dan 'Unrhyw Fater Arall'.

**542. UNRHYW FATER ARALL**

Nodwyd yr eitemau canlynol:

- i. Mae'r Heddlu i gyfarfod â swyddogion y Brifysgol i drafod y cynnydd mewn achosion o fynd i mewn i adeiladau heb ganiatâd, yn arbennig ar draws Safle'r Gwyddorau.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor ddydd Mercher 24 Hydref 2018 am 2.00pm yn Ystafell 3 y Teras.**